

Arbored



Not up

Achub



Ni

Mae byd natur yn rhyfeddod
anhygoel sy'n ein hysbrydoli ni i gyd.

Mae'n sail i'n heconomi, ein
cymdeithas, yn wir ein bodolaeth.
Mae ein coedwigoedd, ein hafonydd,
ein cefnforoedd a'n priddoedd yn
darparu'r bwyd rydyn ni'n ei fwyta,
yr aer rydyn ni'n ei anadlu, y dŵr
rydyn ni'n dyfrhau ein cnydau ag ef.
Rydym hefyd yn dibynnu arnynt am
nifer o nwyddau a gwasanaethau
eraill yr ydym yn dibynnu arnynt ar
gyfer ein hiechyd, hapusrwydd a
ffyniant.



Gelwir yr asedau naturiol hyn yn aml yn 'gyfalaf naturiol' y byd. Mae'r manteision hyn hefyd yn hynod bwysig i'r economi – o ffermio a choedwigaeth i hamdden a thwristiaeth.


Os adiwch nhw i gyd at ei gilydd, mae cyfanswm gwerth y buddion hyn yn rhyfeddol - o leiaf US\$125 triliwn bob blwyddyn.



Oherwydd bod natur yn rhad ac am ddim, rydym yn aml yn ei gymryd yn ganiataol ac yn ei or-fanteisio.

Rydym yn clirio coedwigoedd, yn gorbysgodi cefnforoedd, yn llygru afonydd ac yn adeiladu dros wlyptiroedd heb ystyried yr effaith a gaiff hyn.

Drwy beidio ag ystyried y manteision a gawn o fyd natur, rydym yn creu costau cymdeithasol ac economaidd enfawr i ni ein hunain.



Mae angen inni edrych ar werth byd natur mewn termau economaidd a chymdeithasol i'n helpu i ddeall goblygiadau llawn y dewisiadau a wnawn yn well. Yn hytrach na gwneud penderfyniadau ar sail buddiannau ariannol tymor byr, gallwn edrych ar y buddion tymor hwy i bobl a'r economi – ac wrth gwrs natur ei hun.

